

Popeth yn brydferth

“Oherwydd fe wyddom fod yr holl greadigaeth yn ochneidio ... hyd heddiw.”
(adn. 22)

Beth am ddarllen Rhufeiniad 8:18–27 ac yna myfyrio

Eto heddiw, yr ydym am gadw golwg ar y nefoedd ynghanol ein golygon ni. Yr ydym wedi nodi mai nid y ddaear yma yw ein cartref ni. Dim ond teithio drwodd mae'r saint. Fe ddylai pawb sydd yn sylwi ar fywyd Cristnogion gael ei berswadio nad yw'r rhain wedi eu creu ar gyfer y byd hwn. Mae'r saint wedi eu creu ar gyfer byd gwell. Gan fod pechod wedi dod i mewn i greadigaeth fendigedig Duw, yr ydym yn awr yn byw mewn byd sydd wedi syrthio. Nes y daw nefoedd a daear newydd, yr ydym yn ochneidio am yr hyn nad oes gennym. Dywed yr apostol yn yr adran yma bod y greadigaeth i gyd yn ochneidio. Mae popeth sydd yn byw yn byw gyda realiti clefyd a marwolaeth. Dywed rhai Cristnogion mwy sensitif na'i gilydd eu bod yn ymwybodol o'r ochneidio yma sydd yn y greadigaeth pan fyddant yn gweddio. Disgrifiodd un y profiad i mi fel ynni sydd wedi ei gaethiwo yn ceisio dianc. Mae yna emyn sydd yn gyfarwydd iawn yn y Saesneg, *All things bright and beautiful*.

Mae'n emyn cyfarwydd iawn, ond mae'n ddi-ddorol fod awdures yr emyn yn edrych ar ran o'r greadigaeth yn unig wrth ei ysgrifennu. Mae'n siarad mewn un pennill am wynt oer y gaef, ac mae hynny yn sicr yn brofiad sydd yn real i ni. Ond nid oes yr un pennill yn delio â'r rhannau hynny o'r greadigaeth sydd yn hyll, er enghraifft, anifeiliaid sydd yn rhwygo ei gilydd. Mae'r awdures yn ddewisol yn ei thestun. Nid beirniadaeth yw hyn, ond yn yr Ysgrythur fe welwn fod Gair Duw yn edrych ar y greadigaeth yn ei chyflawnder. Mae rhan o'r greadigaeth yn brydferth, ond mae pechod wedi gwneud rhannau eraill o'r greadigaeth yn hagr ac yn hyll.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Rhuf. 2:1–9; Math. 24:1–13; Ioan 16:33

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut y disgrifiodd Iesu ddiwedd yr oes hon?
2. Beth ddywedodd Iesu y byddem yn ei brofi yn y byd hwn?

Gweddï

O Dad, mae'r ffaith fod pechod wedi effeithio mor drwm ar dy greadigaeth yn dod yn fwy amlwg i mi o ddydd i ddydd. Mae'r greadigaeth yn ochneidio am gael ei rhyddhau, am ddydd y pryniant, ac felly yr wyf fi yn hiraethu, O Arglwydd. Diwalla fy hiraeth, Arglwydd, yn enw Iesu. Amen.